Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Cynllun gweithredu Ymlaen: 2026 i 2027

Sut byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid yn 2026 i 2027 i gyflawni uchelgeisiau Ymlaen - y strategaeth ymchwil, arloesi a gwella ar gyfer gofal cymdeithasol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 23 November 2026
Diweddariad olaf: 23 November 2026

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf. Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ymlaen-strategaeth-ymchwil-arloesi-a-gwella-ar-gyfer-y-sector-gofal-cymdeithasol/cynllun-gweithredu-ymlaen-2026-2027 am y fersiwn diweddaraf.

Sut byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid yn 2026 i 2027 i gyflawni uchelgeisiau Ymlaen - y strategaeth ymchwil, arloesi a gwella ar gyfer gofal cymdeithasol.

## Ein gweledigaeth

I helpu pobl sy’n arwain, yn datblygu ac yn darparu gofal cymdeithasol i deimlo’n hyderus, a’u bod yn cael eu cefnogi a’u hysbrydoli i ddefnyddio ymarfer, tystiolaeth ac arloesedd i wneud gwahaniaeth positif i ofal a chymorth yng Nghymru.

## Sut y byddwn ni’n gweithio

Byddwn ni’n gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru i rannu dysgu, gwneud y mwyaf o dystiolaeth a phrofiad, ac ymateb i heriau a chyfleoedd newydd. Byddwn ni’n gwrando ar leisiau amrywiol, gan gynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd, yn dysgu o’r hyn sy’n gweithio, ac yn cefnogi cydweithio ar draws y sector.

## Sut y byddwn ni’n monitro cynnydd

Byddwn ni’n asesu a monitro ein cynnydd gan ddefnyddio camau gweithredu er mwyn gweld:

- mwy o bobl yn defnyddio ymchwil, tystiolaeth, data a mewnwelediad yn eu gwaith
- mwy o gydweithio ar draws sefydliadau a sectorau
- mwy yn cymryd rhan mewn dysgu, cymunedau a rhwydweithiau

- cynnydd yn y defnydd o adnoddau a chymorth Gofal Cymdeithasol Cymru
- mwy o enghreifftiau o arloesedd a gwelliant yn cael eu defnyddio’n ymarferol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud

I wireddu gweledigaeth strategaeth Ymlaen, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yn ystod 2026 i 2027 er mwyn:

### Pennu cyfeiriad

Dangos

Nodi blaenoriaethau cyffredin ar gyfer ymchwil, arloesi a gwella fel y gallwn gyfeirio sylw, adnoddau a chamau gweithredu i'r mannau lle mae eu hangen fwyaf.

**Pam?**

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod ein ffocws yn gadarnhaol, defnyddiol, a chynhyrchiol, ac wedi’i hysbysu gan yr hyn sydd bwysicaf i bobl. Mae angen i ni gael dull croestoriadol, lle y byddwn ni’n ystyried sut y gall gwahanol fathau o wahaniaethu ryngweithio a llunio profiadau unigryw pobl.

#### 1. Cydgysylltu dull arweinyddiaeth ar y cyd ar gyfer cyflawni strategaeth Ymlaen

Byddwn ni’n cydgysylltu cyflawni strategaeth Ymlaen gyda phartneriaid ledled Cymru drwy sefydlu trefniadau llywodraethiant drwy’r Grŵp Gweithredu Strategol. Byddwn ni’n monitro’r cynllun gweithredu ac yn dod â phartneriaid at ei gilydd i adolygu cynnydd, dysgu a blaenoriaethau’r dyfodol.

#### 2. Datblygu a rhannu tystiolaeth, gwybodaeth a mewnwelediad am y gweithlu

Byddwn ni'n cynnal Dweud Eich Dweud, ein harolwg blynyddol i'r gweithlu ac yn creu nodiadau briffio a chrynodebau data ar y gweithlu.

Byddwn ni'n parhau i ddatblygu'r Porth Data, yn ehangu'r setiau data sydd ar gael a gwella mynediad at wybodaeth am y gweithlu a gofal cymdeithasol. Byddwn ni'n darparu data trylwyr ac ystyrlon ar y gweithlu gofal cymdeithasol, yn eu cynnig mewn fformatau gwahanol, ac yn cynnal dangosfyrddau'r gweithlu i gefnogi cynllunio, polisi ac ymarfer.

Bydd y mewnwelediadau hyn yn cael eu defnyddio i wella dealltwriaeth o'r gweithlu ac i gefnogi gwneud penderfyniadau ar draws gofal cymdeithasol.

**3. Gwella sut mae data gofal cymdeithasol yn cael eu casglu**

Byddwn ni'n arwain datblygiad safonau data gofal cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau oedolion, gwasanaethau plant, y gweithlu gofal cymdeithasol a chofnodion gofal integredig. Byddwn ni'n gwneud hyn drwy weithio gyda'r bartneriaeth DiSC Cymru (Digital in Social Care).

Byddwn ni'n cefnogi datblygiad y safonau data ac yn cyfrannu at waith sy'n gwella ansawdd, cysondeb a defnyddioldeb data gofal cymdeithasol ledled Cymru.

**4. Hysbysu blaenoriaethau cenedlaethol ac agendâu'r dyfodol**

Byddwn ni'n gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu rhaglen o sioeau teithiol ymchwil i gefnogi sgyrsiau cenedlaethol ar bynciau allweddol.

Byddwn ni'n datblygu cynllun i'r gweithlu ar gyfer gofal preswyl i blant trwy gynllunio a darparu cyfleoedd dysgu i gefnogi datblygiad y gweithlu a dulliau therapiwtig mewn gwasanaethau plant.

Byddwn ni’n cyfrannu at waith sy’n gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan gynnwys gweithgaredd datblygu arweinyddiaeth a data’r gweithlu.

Byddwn ni’n defnyddio’r canfyddiadau o’r ddyfais botensial digidol i hysbysu blaenoriaethau cenedlaethol drwy weithio gyda phartneriaid fel DiSC Cymru.

**5. Cefnogi gweithrediad adnoddau diogelu cenedlaethol**

Byddwn ni’n datblygu adnoddau diogelu, gan weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru, ac yn cefnogi’r hyfforddiant diogelu cenedlaethol.

## Cysylltu

Dangos

'Uno'r dotiau' rhwng y gwahanol fathau o gymorth ar gyfer ymchwil, arloesi a gwella ym maes gofal cymdeithasol.

**Pam?**

Mae angen i ni gydgysylltu’r gefnogaeth i bobl sy’n cyd-ddylunio, darparu ac arwain gwasanaethau sy’n meithrin diwylliant cadarnhaol o gydweithio. Mae angen i ni ysgogi camau gweithredu a bod yn hyblyg i ateb anghenion gwahanol.

**1. Cryfhau partneriaethau i gefnogi arloesedd mewn gofal cymdeithasol**

Byddwn ni’n chwarae rôl weithredol yn y bartneriaeth DiSC Cymru, gan gefnogi datblygiad dulliau digidol ac wedi’u galluogi gan ddata ar draws y sector. Byddwn ni’n parhau i gyfrannu at, ac arwain, grwpiau sy’n cefnogi’r defnydd o ddulliau digidol a thechnoleg mewn gofal cymdeithasol.

Byddwn ni’n gweithio gyda phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu a hyrwyddo cymorth arloesi. Byddwn ni’n cynyddu’r ddealltwriaeth o ofal cymdeithasol, yn cysylltu pobl sy’n gweithio ar fentrau tebyg, ac yn eu cysylltu â’r cymorth sydd ar gael.

**2. Llunio a chynnal cymunedau ymarfer a rhwydweithiau o gyfoedion**

Byddwn ni’n cydgysylltu cymunedau o ymarfer a rhwydweithiau sy’n dod â phobl at ei gilydd i ddysgu, rhannu profiad a mynd i’r afael â heriau. Mae hyn yn cynnwys y:

- Gymuned dystiolaeth

- Gymuned ddata

- Gymuned ddigidol

- Gymuned modelau newydd o ofal preswyl i blant

- Gymuned Unigolion Cyfrifol

- Gymuned Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy

- Rhwydwaith arweinyddiaeth dosturiol

- Rhwydwaith llesiant

- Rhwydwaith ymarfer ar sail cryfderau.

Byddwn ni’n creu cyfleoedd i aelodau rannu yr hyn mae nhw wedi ei ddysgu, archwilio materion sy’n dod i’r amlwg, creu cysylltiadau, trafod heriau a datblygu atebion gyda’n gilydd. Byddwn ni hefyd yn darparu cymorth i bobl sy’n dymuno sefydlu cymunedau ymarfer eu hunain.

**3. Rhannu’r hyn a ddysgwyd a syniadau**

Byddwn ni’n nodi, casglu a rhannu’r hyn sydd wedi ei ddysgu o weithgaredd ymchwil, arloesi a gwelliant ledled Cymru. Byddwn ni’n hyrwyddo a rhannu ymarfer drwy’r porwr prosiectau ac yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo gwefan y Grŵp Gwybodaeth.

**4. Cydgysylltu cymorth ar gyfer gwella**

Byddwn ni’n datblygu a phrofi dull ar y cyd sy’n dod â chefnogaeth o wahanol rannau o’r sefydliad at ei gilydd i ateb anghenion pobl yn well.

## Galluogi

Dangos

Creu amodau sy'n galluogi newid positif a pharhaol ym maes gofal cymdeithasol.

**Pam?**

Mae angen i ni ei gwneud hi'n bosibl i bobl ddysgu a thyfu, ac i ymateb i'r heriau ym maes gofal cymdeithasol. Mae potensial gan bethau fel dulliau rheoleiddio a chyllido i godi rhwystrau os nad ydyn nhw wedi'u cynllunio i gefnogi'r weledigaeth a'r uchelgeisiau ar gyfer gofal cymdeithasol.

**1. Cryfhau sylfeini data a digidol gofal cymdeithasol**

Byddwn ni’n gweithio gyda phartneriaid i ddeall a nodi cyfleoedd i wella’r defnydd diogel, effeithiol a chyson o ddata gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- archwilio ffyrdd i rannu data gofal cymdeithasol ar draws systemau electronig a ffiniau sefydliadau. Byddwn ni’n datblygu safonau gofal cymdeithasol i nodi gwybodaeth yn hawdd a’i chynnwys ar y fframwaith Adnoddau Rhyngweithredu Gofal Iechyd Cyflym (FHIR), a ddefnyddir gan gyflenwyr systemau yn y dyfodol

- darparu adnoddau a dysgu ar lywodraethiant gwybodaeth

- nodi cyfleoedd i wella sut y mae gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei rhannu a'i defnyddio mewn cofnodion gofal a chymorth

- hyrwyddo dysgu a chynnydd o raglenni cenedlaethol allweddol gan gynnwys Cysylltu Gofal, yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) a'r Cofnod Gofal Integredig.

Byddwn ni'n casglu a chyhoeddi adnoddau digidol defnyddiol ar ein gwefan y Grŵp Gwybodaeth i gynyddu ymwybyddiaeth a chefnogi dysgu. Byddwn ni'n parhau i ddarparu gweithdai dysgu i wella hyder digidol.

**2. Datblygu diwylliannau cadarnhaol mewn gofal cymdeithasol**

Byddwn ni'n cyd-ddylunio a phrofi dulliau arloesol i ddeall beth sy'n gweithio'n ymarferol i ddatblygu ac ymwreiddio diwylliannau cadarnhaol. Byddwn ni'n myfyrio ar beth rydyn ni wedi'i ddysgu, yn datblygu adnoddau yn seiliedig ar ganfyddiadau, ac yn rhannu mewnwelediadau i gefnogi mabwysiadu'r dulliau ar draws y sector.

**3. Meithrin capasiti ac ymgysylltiad ag ymchwil**

Byddwn ni'n gweithredu ac yn hyrwyddo'r gefnogaeth rydyn ni'n ei darparu i ymchwilwyr i helpu i gyflawni ymchwil gofal iechyd o ansawdd uchel. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi hysbysu polisi, ymarfer a gwella.

Byddwn ni'n creu crynodebau tystiolaeth sy'n cyflwyno canfyddiadau ymchwil mewn ffyrdd sy'n hawdd eu deall, fel y gellir eu defnyddio'n ymarferol.

## Cefnogi

Dangos

Darparu cymorth uniongyrchol i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i annog ymchwil, arloesi a gwella.

**Pam?**

Mae angen i ni gefnogi ymchwil, arloesi a gwella mewn ffyrdd sy'n ymateb i uchelgeisiau a chymhlethdodau gofal cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar ein dyheadau polisi cenedlaethol i greu gwlad decach a mwy cyfartal.

**1. Cefnogi ymarfer, gwerthuso a gwelliant ar sail tystiolaeth**

Byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe i weithredu dulliau Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP). Bydd hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant, yn ogystal ag offer, adnoddau a chyngor ymarferol.

Byddwn ni'n cefnogi pobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol i ddefnyddio gwybodaeth wrth ymarfer a defnyddio tystiolaeth i wneud penderfyniadau. Byddwn ni'n darparu hyfforddiant a chymorth i feithrin capasiti mewn gwerthuso a  mesur effaith drwy ddysgu ymarferol, rhwydweithiau a digwyddiadau.

Byddwn ni'n cynnal yr Adnodd sgiliau ymchwil, arloesi a gwella.  Byddwn ni'n ei hyrwyddo drwy weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu, gan wneud yn siŵr bod y cynnwys yn gyfredol, perthnasol a hygyrch.

**2. Cryfhau arweinyddiaeth a gallu'r gweithlu**

Byddwn ni'n cefnogi datblygiad arweinyddiaeth mewn gofal cymdeithasol drwy:

- hyrwyddo rhaglenni arweinyddiaeth a rheoli cenedlaethol

- wella gwybodaeth a sgiliau ar gyfer arweinyddiaeth dosturiol drwy hyfforddiant a gweithdai, gan gefnogi'r sector i ymwreiddio egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol mewn ymarfer bob dydd.

- cefnogi gweithrediad canfyddiadau'r ddyfais botensial digidol.

### 3. Cefnogi llesiant y gweithlu ac ymarfer ar sail cryfderau

Byddwn ni’n cefnogi llesiant y gweithlu drwy wella'r Fframwaith mae eich llesiant yn bwysig a’r adnoddau cysylltiedig.

Byddwn ni’n darparu gweithdai, hyfforddiant, adnoddau a chyfleoedd dysgu i gyfoedion sy’n cefnogi pobl a sefydliadau i ymwreiddio dulliau sy’n seiliedig ar gryfderau mewn ymarfer o ddydd i ddydd.

## Amharu

Dangos

Ysbrydoli ffyrdd newydd o weithio.

**Pam?**

Mae angen i ni fod yn fwy beiddgar a dewr wrth fynd i'r afael â'r heriau a'r anghydraddoldebau sy'n wynebu gofal cymdeithasol. Dyma'r unig ffordd byddwn ni’n creu modelau gofal a chymorth arloesol a chynaliadwy.

Mae angen i ni herio'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud nawr, sy'n cyflawni mwy o'r un peth, wrth werthfawrogi gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i wella canlyniadau. Bydd hyn yn ein helpu i ymateb i'r hyn sy'n bwysig, nawr ac yn y dyfodol.

### 1. Cynyddu arloesedd mewn gofal cymdeithasol

Byddwn ni’n cefnogi pobl a sefydliadau i ddatblygu, profi a mireinio syniadau newydd drwy hyfforddiant arloesi unigol a grŵp. Byddwn ni’n darparu sesiynau dysgu a sgiliau byr ac yn rhannu’r hyn a ddysgir o weithgaredd arloesi drwy’r porwr prosiectau.

Byddwn ni’n gweithio gyda phartneriaid fel Contracts for Innovation ac Infuse ar eu galwadau her.

### 2. Hybu arloesedd digidol

Byddwn ni’n cyfrannu at grwpiau digidol a thechnoleg cenedlaethol ac yn cynnal aelodaeth weithredol o’r bartneriaeth DiSC Cymru. Byddwn ni’n parhau i hyrwyddo’r defnydd o’r ddyfais botensial ddigidol ac yn gweithio gyda phartneriaid i weithredu dysgu am aeddfedrwydd a llythrennedd digidol.

Byddwn ni’n rhannu gwybodaeth am ddulliau digidol sydd wedi eu galluogi gan dechnoleg, gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial (AI), ac yn cyfrannu at weithgaredd ymchwil a datblygu yn y maes hwn.

## Darllen y strategaeth

Darllenwch Ymlaen, ein strategaeth ymchwil, arloesi a gwella ar gyfer gofal cymdeithasol 2024 i 2029.